# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2013
## 9.30 - 11.00, Ystafell Gynadledda 4B

**Yn bresennol:**
**Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)**
**Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)**
**Anna Daniel (Pennaeth Trawsnewid Strategol)**
**Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)**
**Virginia Hawkins (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)**
**Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)**
**Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)**
**Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)**
**Mike Snook (Pennaeth Ystadau a Chyswllt Cyntaf)**
**Craig Stephenson (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau)**
**Chris Warner (Pennaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth)**
**Sian Wilkins (Pennaeth Deddfwriaeth a Gwasanaeth y Pwyllgorau)**
**Liz Jardine (Ysgrifenyddiaeth)**

**1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

**1.1 Croesawyd Chris Warner i'r Bwrdd Rheoli yn ei swydd newydd fel Pennaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth. Diolchodd y Bwrdd i Virginia Hawkins am ei gwaith fel Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau wrth iddi ddechrau ar ei swydd newydd fel Pennaeth Llywodraethu gyda Grŵp Adnoddau'r Cynulliad. Hwn hefyd oedd cyfarfod olaf Non Gwilym cyn ei habsenoldeb mamolaeth arfaethedig a dymunodd y Bwrdd yn dda iddi.**

**1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Elisbaeth Jones (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol) a Dave Tosh (Cyfarwyddwr TGCh).**

**1.3 Nid oedd buddiannau i'w datgan.**

**2.0 Cyfathrebu â staff**

**2.1 Cytunodd Kathryn Potter i ddrafftio nodyn am drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.**

**3.0 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2013**

**Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.**

**4.0 Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd**

**4.1 Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bwrdd dros doriad yr haf. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys: lansiad arfaethedig yr ymgynghoriad â phobl ifanc am y modd y byddent yn ymgysylltu â'r Cynulliad yn y dyfodol; cafwyd cyfradd ymateb o 70% i'r arolwg staff mewnol a byddai'r canlyniadau'n cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf; roedd y newidiadau i swyddfeydd Tŷ Hywel wedi mynd rhagddynt yn ddidrafferth ac o fewn y gyllideb a diolchwyd i bawb a fu'n rhan o'r llwyddiant hwn.**

**5.0 Cyllideb ddrafft 2014-15**

**5.1 Cafodd y Bwrdd adroddiad llafar ar y Gyllideb Ddrafft, a fyddai'n cael ei chyflwyno gerbron y Comisiwn ar 26 Medi. Roedd gwaith o baratoi i roi tystiolaeth am y gyllideb i'r Pwyllgor Cyllid ar 3 Hydref yn mynd rhagddo.**

**6.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am risgiau corfforaethol**

**6.1 Trafodwyd y gofrestr risg corfforaethol gan ystyried a oedd unrhyw beth ar goll neu unrhyw beth ar y gorwel y dylid ei ychwanegu.**

**6.2 Clywodd y Bwrdd y byddai archwiliad o gynlluniau parhad busnes yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd i weld pa mor ddibynadwy oeddent. Roedd cyfres o adolygiadau gallu'n cael eu cynnal i nodi cryfderau, anghenion datblygu a phroblemau o ran gallu i helpu i gynllunio ar gyfer olyniaeth yn y sefydliad.**

**6.3 Camau i'w cymryd:**

- **Cytunwyd i gynnal adolygiad llai manwl o batrymau gwyliau drwy gydol y flwyddyn i ystyried pa drefniadau fyddai fwyaf addas i ddiwallu anghenion busnes, gan gynnwys gwaith ar brosiectau arfaethedig.**

- **Gofynnwyd i Dave Tosh, Virginia Hawkins ac Alison Rutherford adolygu a oedd unrhyw bryderon ymhlith y staff ynglŷn â rheoli gwybodaeth.**

**7.0 Adroddiad Misol ar Reoli Cyllid**

7.1 Yn adroddiad mis Awst, nodwyd bod y rhagolygon diwedd blwyddyn yn dangos tanwariant tyn iawn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn i'w briodoli'n rhannol i gynllunio ariannol gwell gyda'r gwariant yn ystod y flwyddyn yn dechrau yn ystod y misoedd cyntaf, ond roedd cynlluniau i gyflawni mwy hefyd wedi arwain at gostau ychwanegol. Byddai'r rhaglen Gwerth am Arian yn caniatáu i'r sefydliad barhau i wneud y gorau o'i adnoddau. Roedd y tîm cyllid yn rhoi'r rhagdybiaethau ariannol ar brawf ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn gywir.

7.2 Cam i'w gymryd: Gofynnwyd i'r Bwrdd Rheoli archwilio'r rhagdybiaethau a'r amcanestyniadau ariannol a wnaed o fewn eu meysydd i weld a oedd angen newid y dirprwyaethau.

8.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Bwrdd Buddsoddi

8.1 Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bwrdd Buddsoddi, a gymeradwyodd brosiect y gynhadledd fideo dros doriad yr haf a byddai'n ystyried yr achos dros brosiect y Llywydd, Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus.

Cloi'r cyfarfod

9.0 Unrhyw fater arall

9.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Hydref.